# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost Pecyn Cyflogwr

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Newidiadau i'r ddogfen hon

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n rheolaidd i gyd-fynd â newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

| Fersiwn | Dyddiad cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Nodiadau / newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 20/09/2022 | | |

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Cynnwys


Cwestiynau Cyffredin 4

Beth yw Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) Rhannu Cost? 4

Sut mae CGY Rhannu Cost yn gweithio? 5

Ydw i'n dal i allu ymuno â'r trefniant CGY arferol yn hytrach na CGY Rhannu Cost? 6

Pwy sy'n gymwys i gymryd rhan? 7

Pryd allaf i ymuno â chynllun CGY Rhannu Cost? 7

Faint allaf i ei dalu i mewn i gynllun CGY Rhannu Cost? 7

Pryd allaf i gymryd buddion y cynllun CGY Rhannu Cost o'r trefniant? 8

Ddylwn i boeni eich bod yn gostwng fy nghyflog gros? 8

Beth fydd yn digwydd os byddaf i'n cael dyfarniad cyflog, dyrchafiad neu gynnydd arall? 9

Beth sy'n digwydd i daliadau sy'n gysylltiedig ag enillion fel lwfansau neu dâl am fod ar alwad? 9

Fydd fy mhensiwn CPLlL arferol yn cael ei effeithio? 9

Rydw i'n cael credydau treth ar hyn o bryd. A fydd ymuno â chynllun CGY Rhannu Cost yn effeithio ar fy hawl i gredydau treth? 10

Rydw i ar hyn o bryd yn ad-dalu benthyciad myfyriwr sydd wedi'i seilio ar ganran o fy enillion sydd dros y trothwy a gymeradwywyd. A fydd hyn yn newid? 10

A fydd cymryd rhan yn y cynllun CGY Rhannu Cost yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sydd wedi'u seilio ar gyfraniadau? 10

Allaf i gymryd rhan yn unrhyw drefniadau aberthu cyflog eraill a ddarperir gan Sir Ddinbych? 11

Allaf i dynnu'n ôl o gynllun CGY Rhannu Cost? 11

Beth sy'n digwydd os ydw i'n gadael fy swydd gyda Chyngor Sir Ddinbych? 11

Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os ydw i angen unrhyw wybodaeth arall am CGY Rhannu Cost? 12

Sut ydw i'n amrywio fy nghyfraniad misol? 12

Ble allaf i gael mwy o wybodaeth am fy mhensiwn, CGY a CGY Rhannu Cost? 12

Sut ydw i'n ymuno â Chynllun Aberthu Cyflog CGY Rhannu Cost Cyngor Sir Ddinbych? 12

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Cwestiynau Cyffredin

Mae'r cwestiynau a'r atebion isod yn darparu canllaw sylfaenol i'r Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost, a elwir hefyd yn SCAVC neu SSSCAVC.

Sylwch na all Cyngor Sir Ddinbych, The Prudential, Cronfa Bensiynau Clwyd na Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ddarparu cyngor ar ba mor addas yw CGY na CGY Rhannu Cost i staff. Mae opsiynau eraill o ran cynilo at ymddeol ar gael. Am fanylion opsiynau eraill o ran cynilo at ymddeol o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ewch i wefannau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gronfa Bensiynau Clwyd, neu geisio cyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd o'ch dewis.

### Beth yw Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) Rhannu Cost?

Mae CGY Rhannu Cost yn rhoi cyfle i staff sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol dalu cyfraniadau ychwanegol, er mwyn cynyddu eu buddion pensiwn wrth ymddeol. Mae cynlluniau CGY Rhannu Cost yn ffordd effeithiol o gynilo at ymddeol gan y byddwch yn talu llai o dreth a llai o yswiriant gwladol os yw eich incwm yn ddigon i dalu treth ac yswiriant gwladol. Mae hyn hefyd yn destun terfynau penodol ar gyfanswm sydd wedi'u gosod gan yr Adran Cyllid a Thollau.

Os ydych yn dewis talu CGY Rhannu Cost, mae'r cyfraniadau ychwanegol yn cael eu buddsoddi ar wahân mewn cronfa/cronfeydd o'ch dewis chi, sy'n cael eu rheoli gan y Prudential. Dyma ddarparwr mewnol CGY Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Gyda gobaith, dylai eich cronfeydd CGY dyfu dros amser a byddant ar gael pan fyddwch yn ymddeol i'w troi'n bensiwn ychwanegol (a elwir yn flwydd-dal) neu, yn ddibynnol ar derfynau treth penodol, i gael eu cymryd fel cyfandaliad di-dreth neu gyfuniad o'r ddau. Mae unrhyw log, incwm neu gyfalaf a enillir drwy'r cynllun CGY Rhannu Cost yn rhydd o dreth tra bo'r arian wedi'i fuddsoddi yn eich cynllun. Mae'r Prudential yn cynnig amrywiaeth o gronfeydd gyda risgiau gwahanol o ran buddsoddi a bydd angen i chi edrych ar eu taflenni gwybodaeth ar gronfeydd buddsoddi am fwy o wybodaeth.

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

[Canllaw Cronfeydd y Prudential]

## Sut mae CGY Rhannu Cost yn gweithio?

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyfrannu'r swm yr ydych wedi ei aberthu o'ch cyflog i'ch cronfa CGY Rhannu Cost. Byddwch wedyn yn awtomatig yn cael eich trosglwyddo i drefniant 'aberthu cyflog' ac o dan hwn byddwch yn cytuno'n ffurfiol i dderbyn gostyngiad yn eich cyflog gros sy'n cyfateb i'r CGY Rhannu Cost. Hefyd bydd gofyn i chi wneud cyfraniad o £1 y mis o'ch cyflog fel cyfraniad i'r elfen "rhannu" o'r CGY Rhannu Cost. Ni fydd y cyfraniad hwn o £1 yn rhan o'r trefniant aberthu cyflog.

Mae Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol 2014 yn caniatáu i gyflogwr gyfrannu at gynllun CGY Rhannu Cost.

Mae cynlluniau CGY Rhannu Cost yn golygu ymrwymiad ar eich rhan chi i gytundeb i leihau eich cyflog gros am isafswm o 12 mis. Wrth gychwyn eich trefniant CGY Rhannu Cost, mae'n rhaid i chi fod â chontract cyflogaeth sy'n rhedeg am fwy na deuddeg mis o'r dyddiad cychwyn. Er ei bod yn rhaid i chi ymrwymo am isafswm o 12 mis, gallwch wrth gwrs newid y swm rydych yn ei dalu ar unrhyw adeg.

Mantais cynllun CGY Rhannu Cost dros y cynllun CGY yw, yn ychwanegol at gael rhyddhad treth llawn ar y CGY, ni fyddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) ar y swm rydych yn ei aberthu 'chwaith. O ganlyniad, mae'r CGY Rhannu Cost yn caniatáu i chi arbed ar gyfraniadau YG yn ogystal â threth, sydd felly'n cynyddu'r cyflog i'ch poced o gymharu â thalu CGY arferol.

Fel enghraifft, os ydych chi'n llenwi cais CGY Rhannu Cost ac yn nodi yr hoffech dalu CGY o £50 y mis, cyfanswm eich CGY fydd £50 (£49 yn swm CGY Rhannu Cost a £1 yn gyfraniad CGY personol gennych chi).

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Ydw i'n dal i allu ymuno â'r trefniant CGY arferol yn hytrach na CGY Rhannu Cost?

Y 'cynnig diofyn' fydd y cynllun CGY Rhannu Cost. Fodd bynnag, bydd y Prudential yn parhau i gynnig y trefniant CGY arferol lle bo angen. Caiff y gwahaniaethau rhwng trefniant CGY Rhannu Cost a'r trefniant CGY arferol eu hegluro yn y tabl isod:

| **CGY Rhannu Cost** | **Trefniant CGY arferol** |
|---|---|
| Rydych chi'n aberthu cyflog sy'n cael ei dalu i'ch cronfa CGY gan Sir Ddinbych ac mae'r swm sy'n cael ei aberthu'n gymwys am arbedion treth incwm ac yswiriant gwladol. | Mae'r CGY yn gymwys am ostyngiad mewn treth yn unig. Nid oes arbedion ar gyfraniadau YG. |
| Yn ychwanegol at aberthu cyflog, rhaid i chi dalu cyfraniad o £1 y mis tuag at eich CGY, sy'n gymwys am arbedion treth yn unig. | Amherthnasol |
| Ymrwymiad i leihau eich cyflog am isafswm o 12 mis. | Amherthnasol |
| Nid oes unrhyw arbediad treth os yw eich enillion trethadwy'n llai na'ch lwfans treth * | Nid oes unrhyw arbediad treth os yw eich enillion trethadwy'n llai na'ch lwfans treth * |
| Nid oes arbedion ar gael o ran cyfraniadau YG os ydych chi'n ennill llai na'r trothwy talu cyfraniadau YG cyntaf * | Nid oes unrhyw arbedion i gyfraniadau YG ar gael ar eich cyfraniadau CGY |

* Mae terfynau Treth ac YG cyfredol i'w gweld yn gwefan GOV.UK

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Pwy sy'n gymwys i gymryd rhan?

Gall holl weithwyr Cyngor Sir Ddinbych sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ac sydd ag oriau contract ymuno â'r cynllun CGY Rhannu Cost. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr rhan amser. Fodd bynnag, gan fod cynllun CGY Rhannu Cost yn mynnu ymrwymiad am isafswm o 12 mis, mae'n rhaid i chi fod â chontract cyflogaeth sy'n para mwy na 12 mis o ddyddiad cychwyn eich cytundeb. Os oes gennych gontract sy'n llai na 12 mis o hyd, ni fyddwch yn gallu cael trefniant CGY Rhannu Cost.

Ni all cynllun aberthu cyflog ostwng eich enillion ariannol yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Os gallai hyn ddigwydd drwy fod yn rhan o drefniant CGY Rhannu Cost, cewch eich cynghori a gofynnir i chi newid eich cais.

## Pryd allaf i ymuno â chynllun CGY Rhannu Cost?

Gallwch ymuno â chynllun CGY Rhannu Cost ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r Prudential a llenwi cais.

Gallwch wybod sut i lenwi'r ffurflen addasu contract yn yr adran 'sut ydw i'n ymuno â Chynllun Aberthu Cyflog CGY Rhannu Cost Cyngor Sir Ddinbych?' isod.

Bydd aberthu cyflog fel arfer yn cychwyn pan mae'r Prudential yn anfon hysbysiad i'r adain Gyflogau eich bod chi wedi llenwi cais. Bydd y Prudential yn eu hysbysu am y swm rydych wedi cytuno i'w dalu*.

*Swm misol i'w dalu i gynllun Aberthu Cyflog CGY Rhannu Cost (yn cynnwys cyfraniad o £1)

## Faint allaf i ei dalu i mewn i gynllun CGY Rhannu Cost?

Dan y rheolau pensiwn, gallwch chi a'ch cyflogwr dalu hyd at 100% o'ch cyflog i mewn i'r gronfa CGY yn unrhyw flwyddyn dreth, ond ni all eich cyflog yn unrhyw fis ddisgyn yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

## Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

Mae rheoliadau treth cyfredol yn caniatáu i chi gymryd 100% o’ch pot CGY fel cyfandaliad di-dreth pan mae’r buddion yn cael eu tynnu ar yr un adeg â’r pensiwn CPLIL cyhyd ag nad yw’n fwy na 25% o gyfanswm gwerth y buddion pensiwn CPLIL. Felly, mae terfyn ar faint o CGY y gallwch eu talu i mewn a’u cael yn ôl fel arian di-dreth. Bydd angen i chi wirio beth yw eich terfyn arian di-dreth gyda’r Prudential gan y byddwch yn talu treth ar y swm sy’n mynd dros hynny wrth dderbyn eich buddion pensiwn.

Mae’n bwysig cofio y gallech chi orfod talu treth os byddwch chi’n gwneud arbedion pensiwn sy’n fwy na’r ‘Lwfans Blynyddol’ yn unrhyw flwyddyn dreth. Dyma’r swm y caiff gwerth hawliau pensiwn cronedig unigolyn dyfu mewn blwyddyn yn rhydd o dreth. Mae’r terfyn hwn yn cynnwys:

- twf yng ngwerth eich prif fuddion CPLIL
- unrhyw CGY a/neu CGY Rhannu Cost wedi’u talu gennych chi neu eich cyflogwr
- chyfraniadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig eraill yn y DU mewn blwyddyn dreth (rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill y flwyddyn wedyn)

Mae Sir Ddinbych yn argymell eich bod yn ceisio cyngor ariannol ac/neu gyngor ar dreth os ydych yn credu bod y Lwfans Blynyddol graddedig yn berthnasol i chi cyn talu CGY. Bydd terfyn is yn berthnasol i chi hefyd os ydych wedi cael ‘mynediad hyblyg’ i unrhyw arbedion pensiwn wedi eu prynu gydag arian. Bydd eich cynllun pensiwn wedi rhoi gwybod ichi os yw hyn yn berthnasol i chi.

Am fwy o fanylion am y Lwfans Blynyddol, ewch i wefan yr Adran Cyllid a Thollau.

### Pryd allaf i gymryd buddion y cynllun CGY Rhannu Cost o’r trefniant?

Fel cynllun newydd, mae’n rhaid cymryd y buddion ar yr un pryd â buddion y prif gynllun atodedig ac ni allwch eu gohirio y tu hwnt i ddyddiad cymryd buddion y prif gynllun.

### Ddylwn i boeni eich bod yn gostwng fy nghyflog gros?

Ni fydd gostwng eich cyflog gros drwy gymryd rhan yn y cynllun CGY Rhannu Cost yn cael effaith ar unrhyw dâl diswyddo na thaliadau galwedigaethol y gallech eu derbyn, fel tâl

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu neu Salwch. Bydd Sir Ddinbych yn defnyddio eich cyflog gwreiddiol cyn yr aberthiad fel sail i gyfrifiadau cyflogau. Byddwn yn cyfeirio at hwn o hyn ymlaen fel eich ‘cyflog tybiannol’.

Er hynny, efallai y bydd rhai taliadau statudol e.e. Tâl Salwch Statudol neu Dâl Mamolaeth Statudol yn is ar ôl i chi gael y symiau y mae gennych hawliau galwedigaethol iddynt gan eu bod yn seiliedig ar enillion yr ydych yn talu YG arnynt. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae gweithwyr yn cael yr uchaf o blith Tâl Galwedigaethol, os oes gennych hawl iddo’n dal i fod, neu Dâl Statudol.

Os ydych yn debygol o gael budd-daliadau Statudol yn unig am unrhyw gyfnod, dylech yn gyntaf ystyried yn ofalus a fydd cymryd rhan yn y cynllun CGY Rhannu Cost o fudd i chi.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf i’n cael dyfarniad cyflog, dyrchafiad neu gynnydd arall?

Bydd pob dyfarniad cyflog neu gynnydd yn y dyfodol yn cael eu seilio ar eich cyflog gwreiddiol, cyn i chi gymryd rhan yn y cynllun CGY Rhannu Cost. Gelwir y cyflog gwreiddiol yn ‘gyflog tybiannol’.

## Beth sy’n digwydd i daliadau sy’n gysylltiedig ag enillion fel lwfansau neu dâl am fod ar alwad?

Ni fydd bod yn rhan o gynllun CGY Rhannu Cost yn effeithio ar daliadau fel lwfansau goramser, ar-alwad a shifftiau neu shifftiau nos. Bydd y rhain yn parhau i gael eu cyfrifo ar eich cyflog tybiannol cyn cymryd rhan yn y cynllun.

## Fydd fy mhensiwn CPLlL arferol yn cael ei effeithio?

Mae Rheoliadau CPLlL yn trin CGY Rhannu Cost yn rhan o’ch tâl pensiynadwy, ac felly bydd y cyfraniadau rydych chi a Sir Ddinbych yn eu gwneud i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn parhau fel na fyddai eich cyflog wedi’i ostwng. O ganlyniad, ni fydd ymuno â’r cynllun CGY Rhannu Cost yn cael unrhyw effaith ar eich prif fuddion CPLlL, gan gynnwys unrhyw fuddion sy’n ddyledus i’ch dibynyddion pe baech chi’n marw. Bydd

gennych felly yr un buddion pensiwn â rhywun sydd ddim yn talu CGY Rhannu Cost. Mae CGY Rhannu Cost yn enillion pensiynadwy (yn unol â rheoliad 20(1)(b) o Reoliadau 2014.

## Rydw i'n cael credydau treth ar hyn o bryd. A fydd ymuno â chynllun CGY Rhannu Cost yn effeithio ar fy hawl i gredydau treth?

Mae cyfrifo credydau treth wedi'i seilio ar eich incwm trethadwy (P60). Drwy wneud CGY Rhannu Cost, bydd eich incwm trethadwy'n gostwng, felly gallai eich hawl i gredydau treth newid. Gan fod cyfrifo eich hawl i gredydau treth mor gymhleth, os oes gennych chi gwestiynau, awgrymwn i chi fynd i [wefan GOV.UK] am fwy o wybodaeth neu gysylltu â llinell gymorth yr Adran Cyllid a Thollau ar 0345 300 3900.

## Rydw i ar hyn o bryd yn ad-dalu benthyciad myfyriwr sydd wedi'i seilio ar ganran o fy enillion sydd dros y trothwy a gymeradwywyd. A fydd hyn yn newid?

Bydd, bydd yn newid gan fod ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu cyfrifo ar sail y cyflog rydych yn agored i dalu cyfraniadau YG arno. Dan y cynllun CGY Rhannu Cost, bydd cyfanswm eich cyflog gros yr ydych yn talu YG arno yn gostwng, felly bydd ad-daliadau eich benthyciad yn lleihau. Dylech gadw mewn cof y bydd unrhyw ostyngiad i'ch ad-daliadau'n golygu y byddwch yn ad-dalu eich benthyciad myfyriwr am gyfnod hirach.

## A fydd cymryd rhan yn y cynllun CGY Rhannu Cost yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sydd wedi'u seilio ar gyfraniadau?

Os yw CGY Rhannu Cost yn golygu bod eich cyflog gros yn llai na'r Terfyn Enillion Isaf blynyddol ar gyfer cyfraniadau YG, gallai effeithio ar eich hawl yn y pen draw i Bensiwn Ymddeol Sylfaenol y Wladwriaeth ac fe allech chi golli eich hawl i fudd-daliadau penodol eraill. Felly, os yw eich cyflog wythnosol yn llai na'r Terfyn Enillion Isaf, fe ddylech yn gyntaf ystyried yr effaith bosib' yn ofalus cyn ymuno â'r cynllun CGY Rhannu Cost.

# Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

## Allaf i gymryd rhan yn unrhyw drefniadau aberthu cyflog eraill a ddarperir gan Sir Ddinbych?

Mae Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn cynnig cyfle i staff gymryd rhan mewn trefniadau aberthu cyflog eraill. Fe allwch chi gymryd rhan mewn mwy nag un, ond os yw eich enillion yn gostwng yn is na'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn sgil cynyddu eich swm aberthu cyflog, bydd angen i chi ystyried pa gynlluniau i ymuno â nhw.

## Allaf i dynnu'n ôl o gynllun CGY Rhannu Cost?

Fel arfer, dan delerau cytundeb aberthu cyflog, ar ôl ei gychwyn, ni fydd gennych hawl ei ganslo am isafswm o 12 mis. Ar adeg ymuno â'r cynllun CGY Rhannu Cost, mae'n rhaid i chi fod â chontract sy'n para o leiaf 12 mis.

Os ydych yn dymuno gostwng neu gynyddu eich cyfraniadau, gallwch wneud hynny ar unrhyw adeg, hyd yn oed yn y 12 mis cyntaf, ar ôl llenwi'r ffurflen berthnasol ar-lein.

## Beth sy'n digwydd os ydw i'n gadael fy swydd gyda Chyngor Sir Ddinbych?

Os daw eich swydd gyda Sir Ddinbych i ben am unrhyw reswm, bydd eich hawl i fod yn rhan o'r cynllun CGY Rhannu Cost yn terfynu wrth adael. Os ydych chi wedi bod yn aelod o'r CPLlL ers dwy flynedd neu fwy, bydd eich cynllun CGY Rhannu Cost yn parhau i gael ei fuddsoddi a bydd ar gael i ddarparu buddion ychwanegol ichi pan fyddwch chi'n ymddeol. Sylwch y gallai'r Prudential barhau i dynnu ffioedd i dalu am y gost o reoli eich cynllun yn y cyfamser. Fel arall, gallwch drosglwyddo eich holl fuddion CGY Rhannu Cost llywodraeth leol, gan gynnwys unrhyw CGY llywodraeth leol gyda chyflogwyr eraill, i unrhyw gynllun pensiwn arall o'ch dewis sy'n fodlon derbyn y trosglwyddiad.

Os buoch chi'n aelod o'r CPLlL am lai na dwy flynedd ar adeg gadael eich swydd, gallwch ddewis derbyn ad-daliad sy'n gyfwerth â gwerth realeiddiadwy eich cynllun CGY Rhannu Cost. Nodwch y bydd gwerth y gronfa CGY Rhannu Cost yn gostwng o ystyried y

gostyngiad treth y byddwch chi wedi elwa ohono yn ystod y cyfnod y gwnaed y cyfraniadau.

## Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os ydw i angen unrhyw wybodaeth arall am CGY Rhannu Cost?

Gallwch gysylltu ag Adain Gyflogau Sir Ddinbych ar 01824 706033 neu e-bost: cyflogau@sirddinbych.gov.uk.

## Sut ydw i'n amrywio fy nghyfraniad misol?

Dan delerau'r CGY Rhannu Cost, mae gennych hawl amrywio lefel eich cyfraniadau. Os ydych yn dymuno amrywio eich cyfraniadau, bydd angen llenwi'r ffurflen berthnasol ar-lein.

## Ble allaf i gael mwy o wybodaeth am fy mhensiwn, CGY a CGY Rhannu Cost?

Am fwy o fanylion am yr opsiynau i gynyddu eich buddion pensiwn (yn cynnwys CGY a CGY Rhannu Cost) ewch i:

- Gwefan Gronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint
- Gwefan Cronfa Bensiwn Clwyd
- Gwefan y Prudential

Sylwch na all Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych, The Prudential na Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ddarparu cyngor ar ba mor addas yw CGY na CGY Rhannu Cost. Os nad ydych yn siŵr a ydynt yn addas i chi ai peidio, bydd angen i chi gael cyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd ariannol o'ch dewis.

## Sut ydw i'n ymuno â Chynllun Aberthu Cyflog CGY Rhannu Cost Cyngor Sir Ddinbych?

Llenwch y ffurflen newid contract sydd i'w chael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

## Cynllun Aberthu Cyflog Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhannu Cost

Bydd hefyd angen i chi gysylltu â’r Prudential a llenwi’r ffurflen berthnasol sydd ar gael ar-lein.